# Prosiect Gardd Furiog Parc yr Esgob – 3 x Lleoliad Hyfforddiant Garddwriaethol â Thâl

## 14-16 awr yr wythnos am 16 wythnos (oriau hyblyg trwy gytundeb)

### £177.94-£203.36 yr wythnos

## Cyflwyniad

Mae hwn yn gyfle cyffrous gydag Ymddiriedolaeth Parc yr Esgob i dri unigolyn sydd â diddordeb brwd mewn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau garddio i ymuno â Thîm Garddwriaethol yr Ymddiriedolaeth sy'n ymgymryd ag adfer Gardd Furiog Parc yr Esgob i ddod yn ardd gegin gynhyrchiol unwaith eto.

Bydd y prosiect hwn, a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn adfer gardd furiog Parc yr Esgob i warchod a diogelu nodweddion hanesyddol sydd wedi goroesi, a chreu gofod amlbwrpas.  Bydd hyn yn galluogi darparu ystod o wasanaethau iechyd a lles, addysgol, hyfforddiant a chymunedol yn seiliedig ar arddwriaeth, treftadaeth ddiwylliannol, cynhyrchu bwyd, cadwraeth natur a rheoli digwyddiadau.

Bydd y prosiect yn galluogi mynediad cyhoeddus i bob rhan o'r ardd, adfer y tai gwydr hanesyddol i ddiwallu anghenion y dyfodol, ac yn gwella ymarferoldeb gwahanol ardaloedd a nodweddion yr ardd. Bydd y gofod hyblyg, amlbwrpas hwn yn cryfhau ein gallu i gynhyrchu incwm ac yn ategu gweithgareddau masnachu a dysgu mewn mannau eraill yn y parc.

## Disgrifiad Amlinellol o'r Rôl

Bydd y tri lleoliad hyfforddi am gyfnod o 16 wythnos rhwng Medi 2026 ac Ionawr 2027, mewn cyfnod hollbwysig yn natblygiad prosiect gardd furiog Parc yr Esgob a byddant yn gweithio fel rhan annatod o'r tîm prosiect. Byddant yn cael eu harwain, eu hyfforddi a'u cefnogi gan y Prif Arddwr gan weithio ochr yn ochr â'r Garddwr Cynorthwyol ac aelodau eraill o dîm prosiect yr ardd furiog.

Bydd y rôl yn cyflawni ystod o dasgau fel rhan o brosiect yr ardd furiog gan gynnwys gwella pridd, paratoi gwelyau plannu, plannu amrywiaeth o goed, llwyni a ffrwythau a llysiau lluosflwydd, a thasgau garddwriaethol a chynnal a chadw tymhorol eraill. Bydd hyn yn galw am waith ymarferol egnïol yn yr awyr agored ym mhob tywydd.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Garfield Weston FOUNDATION

THE PILGRIM TRUST

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu tîm amrywiol a chynhwysol lle caiff pawb eu gwerthfawrogi fel unigolion a'u parchu am eu safbwyntiau unigryw. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, hunaniaeth a phrofiadau, gan gynnwys y rheini o grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan grwpiau treftadaeth a/neu sydd wedi profi rhwystrau i weithio. Rydym yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt efallai'n bodloni pob gofyniad a restrir ond sy'n credu bod ganddynt y potensial i ffynnu yn y rôl hon.

Darperir cefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg/Saesneg yn ystod lleoliadau.

Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch yn ystod y broses recriwtio, rhowch wybod i ni pan fyddwch yn gwneud cais.

## Y broses ymgeisio

**Anfonwch e-bost at teresawalters@tywigateway.org.uk erbyn dydd Mercher 19eg Awst, yn esbonio pam yr hoffech weithio gyda ni a sut mae eich profiad a'ch diddordebau'n cyd-fynd â'r rhinweddau a amlinellir yn y Manyleb Person isod, gan roi rhai enghreifftiau.**

**Cynhelir cyfweliadau ar y 9fed o Fedi a rydym yn disgwyl i'r lleoliadau ddechrau yn ddiweddarach y mis hwnnw.**

# Prosiect Gardd Furiog Parc yr Esgob – Disgrifiad Swydd Lleoliad Hyfforddiant Garddwriaethol

| | |
|---|---|
| Yn adrodd i: | Prif Arddwr |
| Lleoliad gwaith: | Parc yr Esgob, Abergwili, Sir Gaerfyrddin |
| Contract: | 14-16 awr/wythnos am 16 wythnos o gyfnod penodol, ar gyflog byw cenedlaethol. |
| | Dyddiau/oriau gwaith i gyflawni 14-16 awr/wythnos yn hyblyg o fewn 8am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn yr wythnos waith – i'w gytuno ar ddechrau'r contract. Byddai dydd Mawrth a dydd Mercher yn ddelfrydol. |
| Geirdaon: | Mae cynigion cyflogaeth yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol |

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government
Garfield Weston Foundation
The Pilgrim Trust

## Prif Bwrpas

Gan weithio fel rhan o dîm Ymddiriedolaeth Parc yr Esgob, byddwch yn cynorthwyo'r Prif Arddwr ym mhob agwedd o reoli a chynnal a chadw Parc yr Esgob a'r ardd furiog er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y prosiect adfer a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Byddwch yn cael hyfforddiant i ddysgu ystod o sgiliau perthnasol.

## Prif ddyletswyddau

- Cynorthwyo'r Prif Arddwr gyda rheolaeth a chynnal a chadw Parc yr Esgob a'r ardd furiog o ddydd i ddydd i gyflawni nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys:
    - cynnal ardaloedd glaswellt (lawnt a dolydd)
    - rheoli coetiroedd
    - rheoli rhywogaethau ymledol
    - paratoi a phlannu tir o fewn yr ardd furiog ac ar draws ardaloedd eraill o'r safle
    - rheoli chwyn
    - rheoli llystyfiant trwy docio, clirio, ac ati.
    - cynnal llwybrau, ffensys, dodrefn y safle a strwythurau eraill
- Defnyddio amrywiaeth o offer a pheiriannau (gyda goruchwyliaeth, canllawiau a hyfforddiant priodol) i gyflawni tasgau rheoli a chynnal a chadw ar draws y safle
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr o ran rheoli a chynnal a chadw
- Cynorthwyo gyda chynnal diogelwch y safle ac iechyd a diogelwch cyffredinol
- Cynnal offer a pheiriannau i safon uchel
- Cynorthwyo i gyflawni amcanion Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw'r prosiect a'r Cynllun Rheoli Ecolegol
- Ymgymryd â dyletswyddau cysylltiedig eraill, yn gymesur â lefel cyfrifoldeb a thâl y swydd, a nodir gan y Rheolwr o dro i dro.
- Mynychu sesiwn gynllunio wythnosol, ac yna ysgrifennu rhestr o dasgau

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government
Garfield Weston Foundation
The Pilgrim Trust

PARC YR ESGOB
BISHOP'S PARK



## Manyleb Person

| HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|
| **HYFFORDDIANT, PROFIAD A CHYMWYSTERAU** | |
| • Nid oes angen hyfforddiant, profiad na chymwysterau blaenorol mewn garddwriaeth na rheoli a chynnal a chadw parciau | • Profiad o weithio mewn tîm i gyflawni set benodol o nodau ac amcanion<br>• Rhywfaint o brofiad mewn garddwriaeth a/neu reoli parciau<br>• Rhywfaint o brofiad o ddefnyddio offer a pheiriannau perthnasol |
| **GWYBODAETH A SGILIAU** | |
| • Disgwylir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos parodrwydd i ddysgu trwy brofiad dyddiol ar lawr gwlad, a thrwy ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant perthnasol a gynigir, gan gynnwys cael tystysgrifau cymhwysedd a gyflwynir trwy ddarparwyr lleol a/neu ranbarthol<br>• Y gallu i weithio'n unigol neu fel rhan o dîm bach i gyflawni nodau cyffredin<br>• Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol (nid o angenrhaid Saesneg/Cymraeg)<br>• Awydd i wella sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg/Cymraeg | • Diddordeb mewn garddwriaeth, ecoleg, neu'r amgylchedd hanesyddol a gwybodaeth amdanynt<br>• Dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd a diogelwch yn y gweithle<br>• Sgiliau TG da, gan gynnwys Microsoft Office a chyfryngau cymdeithasol |
| **SGILIAU RHYNGBERSONOL** | |
| • Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da, yn enwedig gwrando<br>• Cadw amser rhagorol<br>• Y gallu i ymgysylltu â gwirfoddolwyr a staff yr Ymddiriedolaeth. | • Parodrwydd i rannu gwybodaeth a syniadau |

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Garfield Weston Foundation

The Pilgrim Trust